


cwmpawd

*eglwys efengylaidd
gymraeg caerdydd*



Golygyddol

Gwynn Williams

Unwaith eto, edrychwn ymlaen yr haf hwn at wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i Gaerdydd. Gobeithiwn y bydd y tywydd yn garedig a'r wythnos yn llwyddiannus. Mae'r Wyl ddiwylliannol hon yn sicr yn rhywbeth y gallwn fel cenedl ymfalchïo ynddi, ynghyd â'n Cynulliad Cenedlaethol – ac eleni, ein tîm rygbi hyd yn oed.

Ond mae'n siŵr ei bod yn wir dweud na allwn fel cenedl ymfalchïo yng nghyflwr ysbrydol ein gwlad. Wrth i ni edrych yn ôl ar ein hanes, gwelwn ein treftadaeth Gristnogol werthfawr, gyda Christnogion amlwg fel Griffith Jones, Daniel Rowland a Dafydd Morgan yn cael eu cydnabod fel arwyr. Braidd y gall neb wadu dylanwad aruthrol y ffydd Gristnogol ar ein gwlad a'n hiaith. Mae sawl un yn credu na fyddai'r iaith wedi goroesi fel y gwnaeth hyd heddiw oni bai am Feibl William Morgan.

Ond daeth tro ar fydd. Yn ôl yr ystadegau brawychus, 2% yn unig o boblogaeth Cymru sy'n

mynychu lle o addoliad yn wythnosol. Mae cenhedlaeth bellach yn codi sy'n gwybod braidd dim o hanesion y Beibl, a pherson a gwaith Iesu Grist yn ddieithr iddynt. Yn wyneb y fath angen yn ein gwlad, ein gweddi yw y bydd Ysbryd Duw unwaith yn rhagor yn symud yn ein plith gan ddwyn ein cyd-Gymry i edifeirwch a ffydd yn Iesu Grist. Gweddiwn yn arbennig dros y dystiolaeth fydd i'r Efengyl ar faes yr Eisteddfod yn ein dinas.

*Nid aeth o'n cof dy wyrthiau
gynt,
Y sanctaidd dân a'r bywiol wynt;
Gwyn fydd na ddeuent eto i lawr
O! Dduw ein lôr, pâ'r lwydd yn
awr.*



Gwas Dai Grist

Steffan Elis

Un prynhawn yng nghanol Mehefin, a oedd fel petai'n feicrocosm o'r mis cyfan a'r haul yn bygwth disodli gafael y glaw a'r cymylau yn y nen, daeth nifer o ddynion dewr ac eofn at ei gilydd – nid i geisio tynnu rhyw gledd o'i charreg ond yn hytrach i ymaflyd yng 'nghledd yr Ysbryd, hwn yw gair Duw.' (Dylid nodi nad oedd bod yn ddewr ac yn eofn yn anghenreidiol – cyddigwyddiad oedd hyn yn unig.)

Yn fwy penodol, daeth y dynion hyn at ei gilydd ar gyfer cynhadledd 'Gwas Dai Grist'. Ail ran cynhadledd a gynhaliwyd dros flwyddyn yn ôl oedd hon a dweud y gwir, ac fe'i trefnwyd â'r bwriad penodol o arfogi dynion i fod yn arweinwyr da yn eu sefyllfaoedd gwahanol. Daeth dynion o gefndiroedd tra gwahanol ac o bob cornel o Gymru i Aberystwyth (o bobman!) er treulio amser yn y Gair, dysgeidiaeth a

chymdeithas, ac enwi ond tri rheswm o'r rhestr faith.

Roedd y gynhadledd yn para o'r nos Wener hyd at y nos Sadwrn. Ar y nos Wener cafwyd anerchiad gan Stuart Olyott ar bwysigrwydd pregethu'n ffyddlon i'r Gair gan ddal gafael ar yr ystyr wreiddiol a bwriad yr awdur. Yn dilyn hyn cynhaliwyd tair seminar wahanol ar bregethu, arwain astudiaeth feiblaidd a gwaith plant. Dilynodd y dydd Sadwrn drefn debyg i'r noson flaenorol. Prif siaradwr y dydd oedd y Parch. Gwynn Williams a ddefnyddiodd Titus fel testun. O fewn y testun ehangach, siaradodd yn huawdl gan gyffwrdd â nifer o bynciau gwahanol ond gan ganolbwyntio ar rôl henuriaid yn benodol, a'r math o rinweddau mae'r Gair yn eu henwi fel rhai sy'n gweddu i henuriad. Heriwyd y gynulleidfa i fod yn ddynion o'r math hwn, i'w defnyddio er adeiladu corff Crist trwy wasanaethu yn yr eglwys leol. Cynhaliwyd dwy

seminar arall yn y prynhawn, y naill ar 'y dyn teulu' a'r llall ar 'gyrfa ac uchelgais'. Er bod ond amser i fynychu un o'r rhain, rwy'n sicr eu bod ill dwy yn agoriad llygad. Cafwyd ail anerchiad gan Gwynn ac wedyn sesiwn cwestiwn-ac-ateb a ddilynwyd gan gyfnod o weddi agored i gloi. A gyda hynny, roedd y cyfan drosodd. Digwyddodd, darfu megis seren wib.

Ar y cyfan, cafwyd cynhadledd heriol a bendithiol. Dylid diolch i'r trefnwyr (Steffan Job a Steffan Jones) am eu gwaith yn sicrhau parhad y gynhadledd a'i

llwyddiant, ac i'r prif siaradwyr ac arweinwyr y seminarau gwahanol am ei parodrwydd i wneud hynny. Yn wir, ategwyd hyn gan un prentis o weinidog mewn eglwys efengylaidd yng Nghaerdydd a ddywedodd, 'Roedd e'n diwrnod [sic] pen ei gamp.' Yn sicr, byddai'r awdur hwn yn argymhell yn gryf iawn, os cynhelir rhywbeth tebyg i hyn eto, na ddylid ei golli ar unrhyw gyfrif. Mae'n ffordd wych o baratoi'r to ifanc, o annog ein gilydd (fel brodyr yn y ffydd yn y cyd-destun hwn), ac o ddysgu wrth draed rhai profiadol iawn.



Grym Gweddï

John Emyr

Gwasanaethodd E. M. Bounds (1835-1913) ym maes y gyfraith am dair blynedd. Yna, yn 24 oed, trodd ei egnïon at waith pregethu'r Efengyl. Yn fuan wedyn gwasanaethodd fel caplan yn y Rhyfel Cartref yn America. Wedi'r rhyfel, bu'n brysur fel gweinidog, efenglydd ac awdur llyfrau defosiynol. Dywedwyd amdano y byddai'n 'Siarad gyda Duw fel y bydd dyn yn siarad gyda chyfaill'. Cyhoeddodd nifer o lyfrau ar bynciau'r ffydd Gristnogol, ond fe'i cofir yn bennaf ar gyfrif ei gyfrolau ar weddi, a'i lyfr enwocaf yw *Power Through Prayer* a gyhoeddwyd gyntaf yn 1907.

Clywais am y llyfr gyntaf gan yr efenglydd Korky Davey a ddywed yn ei ymdriniaeth werthfawr, *Biblical Patterns of Evangelism*, 'Un o'm trysorau mwyaf yw argraffiad cynnar o lyfr ar weddiö gan E. M. Bounds. Trwy ddarllen ac ailddarllen y llyfr hwnnw, newidiwyd fy mywyd.'

Cyfeiriodd Stuart Olyott hefyd

at y gyfrol a'i heffaith arno: 'Yn 1961 deuthum ar draws llyfr bach. Ers hynny, rwyf wedi ei ddarllen o leiaf unwaith y flwyddyn. Y llyfr oedd *Power Through Prayer* gan E. M. Bounds. Ar ôl y Beibl a Chyffes Fer Westminster, mae'r llyfr hwnnw, gallaf ddweud, wedi cael mwy o ddylanwad arnaf nag unrhyw lyfr arall.' (*Preaching – pure and simple*, Gwasg Bryntirion, 2005, t.157.)

Soniodd yr awdur John Piper yntau (yn un o'i bregethau) am yr un gyfrol fechan a'i dylanwad arno: 'Mae darllen llenyddiaeth ysbrydoledig ar weddiö yn hwb mawr ym mywyd gweddi. Fe'm cyffyrddwyd yn ddwfn gan un gyfrol yn arbennig: *Power Through Prayer* gan E. M. Bounds. Credaf y byddai ei 128 o dudalennau yn rhoi ysgogiad mawr i chi.'

Dim ond drwy ddarllen *Power Through Prayer* o glawr i glawr, wrth gwrs, y gellir gwir werthfawrogi ei chenadwri. Yma ni cheisiaf wneud mwy na rhoi tamaid i aros pryd.

'Taerineb', meddai'r awdur, 'yw hanfod gweddiö llwyddiannus.'

Nid mater o ddweud pader yn unig yw gwir weddi, wrth gwrs, ac nid mater o ailadrodd gwirioneddau, er iddynt fod yn wirioneddau uniongred a Beiblaidd, yw gwir bregethu. Mae gweddïo, fel pregethu, yn rhywbeth a all fod yn ddigon gwag heb eneiad oddi uchod. Credaf fod E. M. Bounds yn ymdrechu i gyfleu rhywbeth na ellir yn rhwydd ei ddiffinio mewn geiriau, sef profiadau a theimladau a ddaw i ran pobl pan fo Duw yn symud yneuplith. Gobriny gallwn ni, sy'n bechaduriaid, gynhyrchu unrhyw realiti ysbrydol. Ni all y gweddïo taeraf na'r pregethu mwyaf cydwylbodol sicrhau'r eneiad oddi uchod. Ond gallwn, o leiaf, gydnabod ein hangen, a gofyn am bresenoldeb yr Un a anogodd ei ddisgyblion i weddïo yn ddyfal ac o lwyrfryd calon.

Os disgwyliwn i *Power Through Prayer* argymhell dull arbennig o weddïo, cawn ein siomi. Nid drwy ddulliau peiriannol y ceir gwir weddïo ond drwy bobl y gall yr Ysbryd Glân eu defnyddio. 'Nid yw'r Ysbryd Glân yn llifo drwy ddulliau, ond drwy bobl. Nid yw'n dod ar beiriannau, ond ar bobl. Nid yw'n eneinio cynlluniau, ond pobl – sef pobl sy'n gweddïo.'

Roedd E. M. Bounds yn byw mewn cyfnod pryd yr oedd mwy o fynd ar Gristnogaeth gyhoeddus, efallai, nag sy'n nodweddu ein cyfnod ni. Er hynny fe ganfu ef yn America ei ddydd, fel y canfu'r nofelydd Daniel Owen yng Nghymru, bod gweddïo a phregethu yn gallu syrthio i rigol defod ac arfer. 'Mae yna wirionedd i'w gael ym mhregethu'r llythyren. Ond nid oes gan wirionedd dwyfol, hyd yn oed, unrhyw egni bywydol ar ei ben ei hun; rhaid ei lenwi ag egni'r Ysbryd, gyda holl allu Duw yn ei rymuso. Mae gwirionedd, heb ei fywiocáu gan Ysbryd Duw, yn marweiddio cymaint onid mwy na chyfeiliornad.'

Ar y llaw arall, pan fydd pregethwyr a'u cynulleidfaoedd yn rhoi lle blaenllaw i weddïo, gall yr Un a wrendy weddi arddel y pregethu a'r addoli. 'Gweinidogaeth lawn gweddï yw'r unig weinidogaeth sy'n peri bod y pregethwr yn cydymdeimlo â'r bobl. Mae gweddï yn uno'r hyn sydd ddynol fel y mae'n uno'r hyn sydd ddwyfol . . . Ni all colegau, dysg, llyfrau, diwinyddiaeth na phregethu wneud pregethwr, ond fe all gweddïo.'


Rhoddir enghreifftiau o fywydau pobl Dduw yn y gorffennol a'r

modd y rhoddent le teilwng i weddio. Meddai un ohonynt, 'Ystyria mai prin yw dy amser ac na ellir ar unrhyw gyfrif ganiatáu i fusnes a chwmni ladrata Duw o'th fyd.' Mor annisgwyl a dieithr y daw geiriau o'r fath i glyw rhai fel ni sy'n byw mewn cyfnod sy'n arbenigo ar drin pobl fel ystadegau neu ffigurau yn hytrach nag fel eneidiau byw ac unigryw.

Fel y gwelir o'r dyfyniadau uchod, nid yw E. M. Bounds yn ofni rhag rhoi lle teilwng i feirniadaeth neu gerydd. Ond nid yw'r aros nac yn gorffen gyda'r rheini. Mewn athrawiaeth Gristnogol iach, cyfrifoldeb pennaf y negyddol yw gwasanaethu'r cadarnhaol. Yn yr un modd, nid yw'n gadael i bwyslais cywir ar sofraniaeth Duw ein hamddifadu rhag ymdeimlad iasol o'n cyfrifoldeb fel pobl. Fel y gwyddom, mae hi'n bosibl inni orbwysleisio'r naill neu'r llall. Os ydym yn gorbwysleisio ein cyfrifoldeb fel pobl, ar draul sofraniaeth Duw, gall hynny arwain at ryw fath o brysurdeb sy'n gadael Duw allan o'r darlun yn llwyr. Ar y llaw arall, os ydym yn gorbwysleisio sofraniaeth Duw ar draul ein cyfrifoldeb fel pobl, gall hynny arwain at grefydd hunanol ac anghreadigol

nad yw'n rhoi lle beiblaidd i weithredu tosturi a byw mewn modd effro ac adeiladol.

Yn hyn o damaid i aros pryd, dyma un briwsionyn i orffen. Meddai'r awdur y defnyddiwyd ei gyfrol ar weddi i ysgogi llawer i gymryd gweddi o ddifrif, 'Y mwyaf o blith diwygwyr ac apostolion fydd y sawl sy'n gallu ysgogi'r eglwys i weddio.'



E.M. Bounds,
Power Through Prayer,
Whitaker House, £5.99.

Holi Hwn a Hon

Lewis R

Wrth i Lewis ddod i derfyn ei gyfnod o weithio yn yr eglwys, dyma gyfle i'w holi am y profiad. Cyfvelwn hefyd â Trystan Hallam fydd yn dod i weithio atom o fis Medi.

Wrth edrych yn ôl dros y ddwy flynedd diwethaf, beth sydd wedi dy annog di, a beth sydd wedi bod yn her?

Mae'r profiadau dwi wedi 'cael dros y ddwy flynedd diwethaf wedi bod yn amrywiol ac eang. Un peth oedd y pregethu wrth gwrs, ond hefyd y cyfleoedd i fynd i wahanol gynadleddau ac ymgyrchoedd, arwain cyrsiau Darganfod Cristnogaeth, cymryd cyrsiau yn WEST, a chyfleoedd i gwrdd â rhai aelodau'n unigol ac astudio'r Beibl. Falle mai dyma'r anogaeth fwyaf, achos dwi wedi cael cyfle i weld sut mae Duw yn ymwneud â'i bobl ar lefel bersonol. Mae fe'n *thrilling* ac yn heriol i weld pobl yn ystyried Gair Duw o ddifri – gweld sut maen nhw'n dymuno gadael i Dduw ddelio â phob agwedd o'u bywyd. Un o'r breintiau mwyaf dwi wedi 'cael yw bod mewn sefyllfa ble dwi wedi gweld pobl yn tyfu mewn gras a thebygrwydd i Iesu.

Aryllaw arall, dim ond nawr dwi'n dechrau sylweddoli gymaint o risg oedd hi ar eich rhan chi i roi'r swydd i mi yn y lle cyntaf! Mae'r ddwy flynedd diwethaf wedi amlygu i mi wendidau personol, ac roedd cael y cyfle i bregethu am wythnosau ar y tro a dysgu'r Beibl i chi wrth inni dyfu gyda'n gilydd yn ffrainc fawr iawn.

Beth yw dy obeithion am y flwyddyn nesaf?

Mis Medi, dwi'n dechrau dau beth newydd. Yn gyntaf, dwi'n mynd i Lundain i astudio'r Beibl ar y *Cornhill training programme*. Mae'n rhaglen flwyddyn o ddod i *grips* gyda'r *tools* sy'n angenrheidiol er mwyn esbonio'r Beibl mewn ffordd mor syml â phosib. Yn fwy nag dim, dwi eisie gallu esbonio'r Beibl yn syml ac yn gyson. Mae Rhufeiniaid 10 yn dweud bod pobl yn dod i ffydd trwy glywed pregethu sy'n pwyntio at Iesu Grist. Dyna beth dwi eisie dysgu'i wneud.

Ond bydda i hefyd yn dechrau gwaith rhan-amser gyda UCCF – mudiad sy'n cynorthwyo undebau Cristnogol mewn

oderick



colegau a phrifysgolion. Byddai i'n gweithio gydag un undeb bach yn Ngholeg Cerdd Trinity. Gan fy mod i wedi bod trwy dau goleg cerdd fy hunan, dwi'n gyffrous i allu helpu ble bynnag y galla i.

Dwi ddim isie gweld mynd i Lundain fel gadael eglwys Caerdydd. Byddai i'n parhau i fod yn aelod ac o dan awdurdod yr henuriaid. Er y byddwn i wrth fy modd yn gweithio gydag eglwys ar ôl gadael Cornhill, nhw fydd yn gallu gwneud yn well na neb a fyddai i'n addas i swydd o'r fath gan mai nhw sy'n fy nhabod i orau. Y cynllun ar hyn o bryd yw gwneud

y flwyddyn yn Cornhill a dod nôl i Gaerdydd i fod yn aelod ffyddlon, oni bai bod Duw yn ymyrryd.

Fy ngobaith yw cael fy nefnyddio gan y Duw oedd mor dda â'm hachub i yn y lle cynta. P'un ai os arwain eglwys neu blannu eglwys neu fod yn rhan o eglwys sydd o'm blaen i, dim ond Duw sy'n gwbybod.

Wrth edrych ymlaen flwyddyn gyfan, y peth mwyaf cyffrous yw fy mod i a Jenny yn mynd i briodi mis Medi nesaf. Gweddiwch amdanon ni, wrth i'r ddau ohonom ei geisio Fe, a disgwyl wrtho am ei arweiniad.

Beth allwn ni fel eglwys weddio amdano?

Os y'ch chi eisie testun gweddi, beth am weddio 1 Corinthiaid 15 drosta i – y byddai i'n cadw fel *first importance* yr hyn sydd wir yn *first importance*, sef Efengyl Iesu. Beth bynnag ddaw o'r flwyddyn nesaf, dwi eisie cofio'r Efengyl bob dydd: bod Duw wedi derbyn fi, ac yn cadw fi, nid ar sail pwy ydwi i, neu beth wnes i, ond oherwydd Iesu sydd wedi byw a marw yn fy lle. Yn y bennod, mae Paul yn dweud ei fod am atgoffa'r Corinthiaid am hyn: y wers dwi'n cymryd o hynny yw ei bod hi'n rhwydd anghofio. Gweddiwch felly na fyddai i ddim yn anghofio (ac fe wna i yr un peth drosodd chi!).

Holi Hwn a Hon

Trystan

Beth yw dy gefndir?

Cwestiwn peryglus! Faint o dudalennau sydd yn *Cwmpawd*? Ysbyty Treforus, Mehefin 1980 – clobyn o 10 pwys + (druan o Mam!) Trystan Rhys Hallam. Rywbryd yn haf 1987, ces fy ngeni o'r newydd, fe ddes yn Gristion. Gwnaeth Mam a Dad y gymwynas fwyaf erioed, drwy fynd â mi i gapel ac ysgol Sul oedd yn dysgu'r Beibl yn gywir. Ond er y fagwraeth Gristnogol, nid oeddwn i'n Gristion. Roeddwn yn credu bod storïau'r Beibl yn wir ers cyn cof, ond yn ystod y flwyddyn yna roeddwn wedi dechrau sylweddoli fod mwy yma na dim ond storïau ysgol Sul. Des i adre o'r cwrdd ryw nos Sul, dydw i ddim yn cofio'r bregeth ond rwy'n cofio gwybod a theimlo am y tro cyntaf fy mod i'n bechadur. Sylweddolais fod yr Iesu wedi marw dros fy mhechod i yn bersonol. Gofynnais i'r

Iesu faddau fy mhechod a gweddïais arno i ddod i fyw yn fy nghalon. Nid oeddwn yn deall llawer, plentyn saith mlwydd oed oeddwn i, ac eto drwy ras roeddwn yn deall digon. Roeddwn yn bechadur. Roedd yr Iesu wedi derbyn y gosb am fy mhechod. Ymddired yn yr Iesu oedd yr unig ateb. Cefais fy aileni! Dim ond dechrau bywyd oedd profiad haf 1987, ond roedd yn ddechrau pendant.

Cefais ddechrau arall fis Chwefror eleni. Bu raid i mi brynu siwt newydd. Roeddwn i'n mynd i gyfarfod arbennig – roeddwn yn mynd i gyfarfod â'm gwraig! Roedd Katherine wedi dweud y byddai hi'n dod i'r cyfarfod rai misoedd ynghynt – ac fel bob tro arall fe gadwodd ei gair! Er bod hyn yn *cliché*, dyna oedd un o ddiwrnodau hapusaf fy mywyd. Mae Katherine yn enedigol o High Wycombe, ger Llundain, ond wedi byw yn Llanbed ers naw mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw daeth hi'n

Hallam

Gristion. Byddai'n amhosib i mi ddod i Gaerdydd heb Katherine yn gefn imi. Mae ei chariad a'i gofal drosof yn amhrisadwy – does dim ond un Kat, a 'Kat fi' yw honno!

Sut y teimlaist awydd i wneud gwaith Cristnogol?

Bu rhaid i mi gymryd blwyddyn allan o ddilyn cwrs gradd yn Aberystwyth o achos salwch. Ces i gyfle i fynd i weithio fel gwirfoddolwr yng Ngholeg Plant ac Ieuenctid y Presbyteriaid yn y Bala, ac mae'n siŵr mai dyma oedd y cyfnod pryd teimlais i fwy na jyst awydd, ond rheidrwydd i wneud gwaith Cristnogol llawn-amser. Roedd y flwyddyn yn dirwyn i ben, ond doeddwn i ddim yn teimlo y gallwn fynd yn ôl i astudio yn Aberystwyth. Er bod gwaith Cristnogol llawn-amser yn codi ofn arnaf – ac mae o hyd yn codi ofn arnaf – roedd yn rhaid imi aros mewn gwaith Cristnogol llawn-amser. Yn lle mynd yn ôl i'r Coleg ger y lli, arhosais am flwyddyn arall yn y

Coleg ger y llyn. Bu staff Coleg y Bala o gymorth enfawr i mi yn ystod y cyfnod hwnnw.

Daeth y Beibl yn fwy gwerthfawr yn fy ngolwg drwy fy nghyfnod yng Ngholeg y Bala – dechreuais ei astudio'n fwy manwl. Daeth rhai rhannau fel pennod gyntaf Jeremeia yn agos iawn i mi, lle mae Jeremeia yn reslo gyda galwad Duw i'w waith. Mae Eseciel 34, sy'n sôn am farn Duw ar gau athrawon, yn dal i herio. Astudio'r Beibl yn fanylach oedd y bwriad wrth imi fynd i Goleg Diwinyddol Bryntirion ym Mhen-y-bont ar Ogwr, wedi fy nghyfnod yn y Bala.

Ond daeth newid byd. Rhaid oedd gadael Coleg Bryntirion ar ôl tymor yn unig, am fy mod yn dioddef o gancr. Allaf i ond disgrifio'r misoedd hynny fel rhai ofnadwy. Eto, er na fyddwn yn dymuno mynd drwy'r profiad eto, roedd yn brofiad gwerthfawr. Dysgais fod Duw yn fy ngharu, nid am bwy oeddwn i, nid am fy mod i eisiau bod mewn gwaith Cristnogol, nid am fy mod i wedi bod mewn coleg diwinyddol; ond bod Duw yn fy ngharu i am

un reswm yn unig – am Ei fod yn *dewis* fy ngharu i. Roeddwn wedi gadael coleg diwinyddol lle'r oeddwn yn delio â'r Beibl bob dydd, a nawr nid oeddwn yn gallu darllen y Beibl, o achos salwch. Ond roedd Duw yn dal yn fy ngharu.

Roedd profiad y salwch yn hollbwysig o safbwynt fy ngalweddiaeth i waith Cristnogol; mae bywyd yn fregus, mae'r bedd yn agos, dim ond un ateb sydd – Iesu Grist. Rhaid cyhoeddi'r ateb.

Wedi cyfnod o iselder ysbryd dwys ar ôl gwella o'r cancr, ces i gyfle i fynd i weithio fel gwirfoddolwr yng nghaffi Cristnogol yr Hedyn Mwstard yn Llanbed. Bu'r gwaith yma o fudd mawr i mi o ran gallu rhoi patrwm sefydlog ar fywyd ar ôl salwch dwys. Wrth wella, ailgydiais yn narllen y Gair. Des yn aelod yn Eglwys Efengylaidd Llanbed, a chael cyfle i bregethu yno. Bu'r eglwys, y caffi a'r bobl yn Llanbed yn fendith fawr i mi. Ailgydiodd yr awydd – y rheidrwydd – i wasanaethu mewn gwaith Cristnogol llawn-amser.



Beth yw dy obeithion ar gyfer y flwyddyn nesaf?

Fy ngobaith mwyaf yw y bydd Cymry Cymraeg yng Nghaerdydd yn dod i gredu yn yr Arglwydd. Bydd yr Arglwydd yn ymweld â ni, ac yn troi ein calonnau llugoer ni fel Cristnogion, a chalonnau caled ein cyd-Gymry, ato Ef.

Yn bersonol, rwy'n gweld y flwyddyn nesaf fel rhyw flwyddyn brawf. Mae'n flwyddyn i brofi a ydyw i'n addas ar gyfer gwaith llawn-amser mewn eglwys. Gobeithio



y bydd hi'n flwyddyn o gadarnhad, ac o hyfforddiant ar gyfer gwasanaeth pellach yn y dyfodol. Nid ar chwarae bach y dylid mentro mynd yn gyfrifol am ddysgeidiaeth 'lawn amser' mewn eglwys, ac felly bydd blwyddyn o brentisiaeth yn werthfawr. Rwy'n edrych ymlaen at gael fy nysgu gan y gweinidog, yr henuriaid a'r holl aelodau. Rwy'n edrych ymlaen at gael blwyddyn gyda mwy o amser i astudio'r Gair. Os bydd y flwyddyn yn gadarnhad ar gyfer gwaith Cristnogol llawn-amser yn y dyfodol – grêt. Os

na, fydd y flwyddyn ddim wedi bod yn wastraff amser chwaith. Gobeithio y bydda i'n fwy cymwys ar gyfer gwasanaethu'r Arglwydd ym mha sefyllfa bynnag y mae Ef am i mi fod ynddi.

Beth allwn ni, fel eglwys, weddio amdano?

Byddwn yn gwerthfawrogi petai'r eglwys yn gweddïo am bresenoldeb yr Arglwydd, iddo fod yn agos yn holl weithgareddau'r eglwys. Ar i'r Arglwydd yn gyntaf greu syched yn ein heneidiau amdano. Mae angen i ni fod yn debyg i'r Salmydd yn Salm 42:1: 'Fel y dyhea ewig am ddyfroedd rhedegog, felly y dyhea fy enaid amdanat ti, O Dduw'. Ydyn ni'n sychedig am Dduw?

Mae hefyd faterion ymarferol, bob dydd, y byddwn yn hoffi i chi gofio amdanynt, fel gwaith nyrsio addas i Katherine, setlo yn y ddinas, ac iechyd. Mae'r ddau ohonom yn disgwyl ymlaen at ddod i'r eglwys. Gweddïwn ar i Dduw ddefnyddio'r cyfnod er clod i'w Enw Ef.

Wythnos yng N

Luned Roberts

Am wythnos ym mis Mawrth, cafodd criw o ryw 12 ohonom fraint fawr, sef ceisio rhannu Efengyl Iesu Grist ymhlith pobl Caernarfon. Gweithio gyda chapel o'r enw Caersalem a wnaethom, ergyd carreg o'r stryd fawr.

Roedd rhaglen amrywiol wedi ei threfnu ar gyfer yr wythnos. Aeth rhai o'r grŵp i dair ysgol gynradd y dref a chyflwyno'r neges drwy gân, cwis balŵns a hufen! Yn y cyfamser, aeth eraill ohonom o ddrws i ddrws er mwyn gwahodd pobl i'n gweithgareddau. Roeddem hefyd yn dosbarthu taflen yn cynnwys tystiolaeth tri pherson lleol i'w ffydd yn Iesu Grist, un yn ifanc, un yn ganol oed a'r llall yn hŷn. Roedd y bobl y daethom ar eu traws yn gwrtais ac yn annwyl iawn, gan wneud y gwaith yn braf inni.

Ar y nos Fawrth, cynhaliwyd noson TearCraft, sef noson gwerthu crefftau a wnaed gan bobl sy'n byw yn y Trydydd Byd – clustdlysau, mwclisau, sgarffiau, porsiau a llawer mwy.

Cawsom groeso brwd gan blant Llanllyfni brynhawn Mercher pan aethon ni atynt i gymryd y clwb plant. A barnu o'r codi llaw gwyllt wrth inni ymadael, fe wnaethon nhw fwynhau'n fawr!

Fin nos, nos Fercher, trowyd y capel yn dŷ bwyta a chawsom bryd bwyd gwych. Yna ar y diwedd, rhannodd Steffan, un o'r tîm, sut y daeth i gredu yn Iesu Grist, ac wedyn siaradodd Martin am yr Efengyl.

Roedd dydd Iau braidd yn wlyb, felly doedd hi ddim yn ddiwrnod da iawn i wneud gwaith holiaduron ar y stryd! Ar ôl cinio cawsom brynhawn coffi clyd iawn. Siaradodd Keith am ei brofiad o ddod yn Gristion ar wersyll Cristnogol flynyddoedd ynghynt, ac wedyn anogodd Martin bawb i ddod i gredu.

Nos Iau, yr ieuentid oedd y ffocws mewn noson Siocled a Siarad. Roedd gêmâu'r noson i gyd yn ymwneud â siocled, a'r siarad i gyd yn ymwneud ag atgyfodiad Iesu Grist. Cyflwynwyd nifer o wrth-

ghaernarfon

ddadleuon gwahanol i'r atgyfodiad, ac yna dangos nad oedd y dadleuon hynny yn dal dŵr.

Nos Wener y Groglith, daeth criw o ddysgwyr yr ardal ynghyd i gael paned, gwers Cymraeg fer a chyflwyniad syml i'r Efengyl.

Fore Sadwrn bu'n rhaid i mi adael y tîm a throi am adref, ond aeth y gweddill ymlaen i gynnal cyfarfod awyr agored y tu allan i siop Boots, cyn cynnal sesiwn holi fin nos, ac oedfa efengylu ar y bore Sul.

Anodd mesur hyd a lled yr hyn a gyflawnwyd yn ystod yr wythnos.

Ond fe gyhoeddwyd Efengyl Iesu Grist, a thystiolaeth y Beibl yw bod honno'n Efengyl rymus, ac ynddi'r gallu i newid tynged dragwyddol pobl.

Gwerthfawrogem eich gweddïau:

- dros y cartrefi a dderbyniodd daflenni
- dros blant ysgolion Caernarfon a'u teuluoedd
- dros blant clwb Llanllyfni a'u teuluoedd
- dros bawb a ddaeth i'r gweithgareddau ac a glywodd yr Efengyl
- dros waith capel Caersalem.



Christmas Evan

Noel Gibbard

Cafodd Christmas Evans amser bendithiol a helbulus ym Môn. Gwnaeth fwynhau gwenau Duw, a phrofi gŵg dynion. Roedd yn falch i dderbyn galwad o Donyfelin, Caerffili, ac aeth yno ym 1826. Yn union ar ôl cyrraedd, daliodd afael ar yr addewid yn Efengyl Mathew 28:19. Atebwyd ei weddi ef a'i bobl: 'Disgynodd yr Ysbryd ar yr eglwys yn Nghaerphili, fel y darfu i ni gyduno i geisio yn enw Iesu dywalltiad o'r Ysbryd Glân i lwyddo yr Efengyl. Cawsom mewn atebiad i weddi, yn gyffelyb i'r hyn y darllenais amdano yn America'. Mewn dwy flynedd, bedyddiwyd 140 o bobl.

Cyrhaeddodd Gaerffili yn ôr gwedd, ac awgrymwyd iddo y dylai briodi merch gyfoethog yn yr ardal, ond gwylltio at hyn a wnaeth Christmas Evans a phenderfynu priodi Mary Jones, ei forwyn ym Môn. Mae'n dda iddo gael ymgeledd, oherwydd roedd anghydfod yn yr eglwys. Cafodd alwad o'r Tabernacl, Caerdydd,

a chredai y dylai ymateb yn gadarnhaol.

Cyn ateb, gwnaeth gyfamod â Duw; y trydydd iddo'i wneud yn ystod ei weinidogaeth. Mae'n rhy hir i'w gynnwys yma'n llawn, ond dyma rai cymalau:

1. 'Dydy dy ffafr fawr i mi gael fy arwain gennyt yn ôl dy ewyllys, trwy amneidion dy ragluniaeth a'th air, a gogwyddiad fy meddwl gan dy Ysbryd, er mwyn dy anfeidrol werthfawr waed. Amen. C.E.'

2. 'Caniatâ, os wyf i fyned o Gaerphili, i'r awel a'r adfywiad crefyddol a gefais yma, fy nilyn i Gaerdydd, er mwyn dy enw mawr. Amen. C.E.'

4. 'Na oddef i mi gael fy sathru o dan draed balchder aelodau na diaconiaid, er mwyn dy ddaioni, Arglwydd. Amen. C.E.'

15. 'Parhaed y cyfamod hwn pan byddwyf fi yn glaf neu yn iach, neu mewn unrhyw amgylchiad; canys yr wyt ti wedi gorchfygu y byd, cyflawni y ddeddf, gorphen cyfiawnder cyfiawnhaol, ac wedi llyngcu anghydweddi mewn

s yn Ne Cymru

buddugoliaeth, a phob awdurdod yn y nef a'r ddaear yn dy law.'

Ysbeidiau o fendith a gafwyd yng Nghaerdydd,acroedd anawsterau yma hefyd. Gresynai Christmas Evans at yr arfer o weddio dros berthnasau marw, ond nid oedd pawb eisiau newid yr arfer. Nid oedd ei gynhaliaeth ariannol yn ddigonol o bell ffordd chwaith. Erbyn diwedd y tri mis cyntaf yng Nghaerdydd, dim ond deg punt a dderbyniodd fel cyflog, ac roedd ardreth ei dŷ yn ddeuddeg punt, heb sôn am ofynion eraill, gan gynnwys cynnal ei geffyl.

Ar ôl tair blynedd yn y Tabernacl, dychwelodd Christmas Evans i'r Gogledd, y tro hwn i Gaernarfon. Ond ym 1838, trefnwyd taith gasglu iddo yn De, ermwyn dileu dyledion capeli, a daeth ei wraig a phregethwr ifanc yn gwmni iddo. Ynystod yrymweliad, pregethodd Christmas Evans yn Nhonyfelin, Caerffili, a'r Tabernacl, Caerdydd. Cyrhaeddodd Abertawe, a phregethu ar y Sul ym Methesda, a nos Lun ym Mount Pleasant. Tair pregeth Crist-ganolog oedd y rhain, a'r olaf yn cyhoeddi

bod rhaid i Grist ddioddef a chyfodi, 'a phregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw ef i'r holl genhedleoedd; gan ddechrau yn Jerwsalem' (Luc 44:47). Roedd ei nerth yn pallu. Erbyn nos Lun diffygiodd yn llwyr ond credai, ar sail breuddwyd a gafodd, na fyddai'n marw. Credai y byddai Duw yn ei droi yn ôl o lan loddonen, ond camddehonglodd y freuddwyd. Cydnabu hynny, a sibrwd ar ei wely angau, 'Wheel around, coachman, and drive on'. Christmas Evans yw awdur y pennill:

*Y fraich fu'n holli'r mor,
A throi loddoned gref,
Sy'n awr yn dal y gwan,
I deithio tua'r nef;
Mae dwyfol rym ym mraich fy
Nuw
I gadw'r eiddil gwan yn fyw.*

Dyma ddau lyfr gwerth eu darllen:

D. Densil Morgan, *Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd* (Gwasg Gomer, 1991).

Tim Shenton, *Christmas Evans* (Evangelical Press, 2001).

Llyfrau i'r cêś

Amanda Griffiths

Wel, dyma ni, lawer ohonom, bellach ar ddechrau gwyliu'r haf – cyfle gwyh i ymgolli mewn llyfr. Dyma grynodeb o rai llyfrau a ddarllenais yn ddiweddar, ac a greodd argraff arnaf i.

Elisabeth Elliot, *Through Gates of Splendour* a *The Shadow of the Almighty*

Dwi wrth fy modd yn darllen bywgraffiadau a dymaddau hynod gan Elisabeth Elliot, sef gweddw Jim Elliot y cenhadwr o America a laddwyd gan frodorion o lwyth yr Auca yng nghoedwigoedd Ecuador, ym 1956 pan oedd yn wyth ar hugain oed. Mae naratif *Through Gates of Splendour* fel nofel – yn dilyn hynt a helynt Jim a'i gyd-genhadon, a'u baich anhygoel dros lwyth di-gred a threisgar. Dysgwn sut gwnaethon nhw symud eu teuluoedd a gadael eu bywyd cyfforddus a mynd i fyw mewn mannau cyntefig ac unig o Ecuador er mwyn gwneud gwaith Duw a lledaenu'r Efengyl. Cawn y ffrainc o ddysgu am ddynion duwiol a bwysai'n gyfan gwbl ar Dduw gan ymhyfrydu yn eu hadnabyddiaeth o'u Harglwydd. Croniclwyd popeth – y perygl, y

cariad, yr aberth a'r ffydd – mewn naratif teimladwy a ffyddlon.

Yn *The Shadow of the Almighty* dysgwn am fywyd cynnar Jim Elliot, a'i alwad i genhadu yn Ecuador, trwy gyfres o lythyron a darnau o'i ddyddiaduron – ac yma eto cawn benodau hynod o emosiynol a heriol.

Mae'r llyfrau hyn yn addas ar gyfer pob Cristion – hen neu ifanc yn y ffydd – er mwyn pwysleisio pwysigrwydd rhoi eich bywyd yn llwyr i Grist wrth ei ddilyn Ef; ei fod Ef yn arglwydd ar bob rhan o'ch bywyd. Trwy ddarllen y llyfrau hyn, cewch eich herio i fod yn debycach i'r gŵr hwn – '*Jim Elliot was a man of passion and a man of prayer ... with an all-consuming passion for Christ and His Kingdom.*'



Tony Anthony, *Taming the Tiger*
Dymafywgraffiad arall, y tro hwn am Gristion o dras Tsieiniaidd o'r enw Tony Anthony – gŵr a lwyddodd i gyrraedd y brig ym maes *Kung Fu* a'r *Martial Arts*. Dysgwn sut y daeth y gŵr hynod dreisgar hwn i adnabod Iesu Grist o'i gell mewn carchar yn Niccossia yng Nghyprus, a sut y bu i gariad Iesu a gwaith yr Ysbryd Glân drawsnewid ei fywyd gyfan gwbl. Dyma lyfr cyffrous ac onest iawn sy'n dangos nad yw bywyd yn fêl i gyd ar ôl dod yn Gristion wrth inni ddilyn Tony Anthony yn ei berthynas â Christ trwy ddyddiau da a dyddiau anodd.

Randy Alcorn, *Safely Home*

Nofel yw'r llyfr hwn gan Gristion o awdur o America. Ffuglen ydyw – ond fe'i seiliwyd ar ddigwyddiadau a hanesion gwir am sefyllfa enbyd Cristnogion a'r Eglwys yn Tseina a hwythau'n cael eu herlid gan awdurdodau'r wlad. Dwi heb orffen darllen y llyfr hwn eto – ond dwi'n methu â'i roi i lawr! Mae gan yr awdur ffordd hynod rymus o ddisgrifio bywyd anodd a ffydd gadarn Cristnogion yn Tseina.

Khaled Hosseini, *The Kite Runner* ac *A Thousand Splendid Suns*

Dwy nofel arbennig iawn ac – unwaith eto – ffeindiais hi'n

anodd iawn diffodd y golau pan oeddwn yn eu darllen. Hanes rhyfel Afghanistan yw pwnc y ddwy. Mae'n rhaid i mi gyfaddef imi ddysgu llawer mwy am hanes cythryblus y wlad a gwleidyddiaeth y rhyfel trwy ddarllen y nofelau hyn na thrwy gwylio'r hanes ar y newyddion, ac roedd hyn yn bosibl, diolch i ddawn ysgrifennu huawdl yr awdur. Llwyddodd i weu digwyddiadau erchyll a chymhleth yn gelfydd i mewn i stori bwerus a chreu cymeriadau annwyl, agos-atoch. Gwelwn y rhyfel yn *The Kite Runner* drwy lygaid dau fachgen ifanc, tra dewisodd yr awdur wraig a merch ifanc yn brif gymeriadau i'w ail nofel.

M. C. Beaton, *Agatha Raisin and the Quiche of Death*

Os oes cornel bach gwag ar ôl yn y cê, a phe hoffech chi ddarllen nofel lawer ysgafnach – dyma'r un i chi! Dyma'r Miss Marple neu'r Jessica Fletcher gyfoes. Gwraig fusnes lwyddiannus yn ymddeol ac yn symud i fyw yn ardal y Cotswolds, ac yn ei ffeindio'i hun yng nghanol dirgelion a llofruddiaethau. Hanesion a chymeriadau doniol iawn – a naratif cryno a thacclus. Un o gyfres helaeth o nofelau sydd hefyd i'w clywed ar Radio 4.

Digwyddiadau'

Catrin Lewis

Beth mae gwyliau'r haf yn ei olygu i chi? Efallai bod rhai ohonoch yn gorfod parhau i weithio trwy fis Awst, a rhai eraill yn edrych ymlaen at gael gorffwys tawel neu wyliau tramor prysur. Efallai bod rhai yn edrych ymlaen at wersyll neu gynhadledd, ac eraill ohonoch wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer y digwyddiadau sydd ar amserlen haf cynifer o Gristnogion Cymraeg. Dyma rai digwyddiadau a manylion er mwyn i ni allu gweddïo'n ddeallus.

Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch 2008, 2–9 Awst

Bydd gan Fudiad Efengylaidd Cymru babell ar y maes ac yn croesawu pobl â phaned, a bydd tîm hefyd yn dosbarthu tractiau Cristnogol o gwmpas y maes, ac yn ceisio codi sgwrs a chwilio am gyfle i rannu'r Efengyl. Cynhyrchwyd llyfryn o dystiolaethau Cristnogion lleol i'w ddefnyddio yn ystod yr Eisteddfod. Os ydych chi'n gweld eich ffordd yn glir i roi ychydig oriau i gynorthwyo yn y babell

neu ar y maes gwelwch Gwydion, a bydd Catrin yn barod i dderbyn rhoddion o gacennau i'w gweini yno.

Bydd pabell gan TearFund ar y maes hefyd, yn dangos sut mae cariad Duw yn cael ei weithio allan yn ymarferol mewn gofal dros bobl sydd ddim yn mwynhau cymaint o freintiau materol â ni.

Bydd Y Gorlan unwaith eto yn gweithio ymhlith pobl ifainc ar Maes B, ac fel arfer yn ceisio rhannu'r newyddion da tra'n gweini bwyd maethlon (?) ar hyd y dydd a'r nos.

Gwersylloedd Mudiad Efengylaidd Cymru

Cynhelir dau wersyll Cymraeg yn ystod yr wythnos 9–16 Awst. Bydd Huw Pritchard a Bethan Davies yn arwain y gwersyll iau yn Quinta, a Gwydion Lewis yn gaplan, tra bydd Dafydd Cunningham a Heledd Job yn arwain y rhai hŷn ym Mrynygroes, a Mark Thomas yn gaplan yno. Mae nifer o gysylltiadau'r eglwys yn mynd i gynorthwyo

r Haf

fel swogs a chogyddion, ac mae ein pobl ifanc yn edrych ymlaen at fynychu. Gweddiwn am ddiogelwch, mwynhad a bendith yn y gwersylloedd.

Y Gynhadledd Flynyddol, Mudiad Efengylaidd Cymru, 18–22 Awst

Bu'r gynhadledd hon yn fendith i gymaint o Gristnogion Cymru ar hyd y blynyddoedd. Os nad ydych chi wedi bod o'r blaen, neu os na fuoch yno ers rhai blynyddoedd, beth am ddod eleni am ryw gyfnod i fwynhau cymdeithas a gweinidogaeth y gair? Y Parch Geraint Morse fydd yn cymryd y prif anerchiadau, ar y testun Y Duw sy'n Ateb Trwy Dân. Bydd Dewi George o'n plith ni yn cymryd y cyrddau gweddi, a siaradwyr gwahanol bob nos.

Ymgyrchoedd ar y Traeth

Bydd ymgyrchoedd United Beach Mission yn digwydd ym Menllech, Llandudno, Ceinewydd a Langland dros fisoedd yr haf, yn y gobaith y cawn dywydd heulog i ddenu pobl tua'n traethau. Bydd Undeb y Gair [*Scripture Union*] hefyd yn cynnal ymgyrchoedd ar draethau Cymru.

Gweithgareddau'r Eglwys

Rhag ofn i ni feddwl ein bod ni fel eglwys ar wyliau dros fis Awst, cofiwn am gyfarfodydd wythnosol yr eglwys, ac am y rhai a fydd yn pregethu ac yn arwain. Mae'r gwaith o dystiolaethu i'n Harglwydd Iesu Grist yn parhau. Bydd ymwelwyr, efallai, yn troi i mewn atom ni – mae rhai pobl yn dod i Gaerdydd am wyliau wedi'r cwbl! Ac os byddwch yng Nghaerdydd dros yr haf, beth am wahodd ffrind i ddod i oedfa gyda chi?

Parhawn i weddio dros y rhai sydd wedi dod i amrywiol weithgareddau'r eglwys dros y misoedd diwethaf. A gweddiwn dros ein gilydd wrth i ni fynd a dod yn ystod yr wythnosau nesaf. Gweddiwn y bydd y gwyliau'n fwynhad ac yn adferiad corfforol ac ysbrydol i bob un ohonom.



Newyddion

Yn gyntaf, llongyfarchiadau mawr...

... i Steffan Elis a Nerys Williams ar raddio o Brifysgol Bangor. Rydym yn falch iawn eu bod nhw ill dau yn mynd i fod yn Nghaerdydd dros y flwyddyn nesaf o leiaf.

... i Lewis a Jenny ar eu dyweddïad. Pob hwyl wrth baratoi ac edrych ymlaen i'r briodas ym mis Medi 2009.

... i Wyn James ar gael ei urddo i'r Wisg Wen.

Mae Catrin Williams ac Andy Gardiner yn priodi ar 13 Medi. Dymunwn yn dda iddynt ystod y paratoadau, ac ar ddechrau eu bywyd priodasol.

Achlysur llawen iawn yn ddiweddar oedd derbyn Jon Glanfield yn aelod yn yr eglwys – croeso Jon!

Byddwn ni'n flin i golli cwmni Mari Roberts o fis Gorffennaf gan ei bod hi'n ffarwelio â ni er mwyn symud i Lerpwl i ddechrau swydd newydd yno. Pob hwyl Mari, a phaid a bod yn ddiarth!

Ym mis Mai, cynhaliwyd Cymanfa Eglwysi Efengylaidd De Cymru yn Nhrefeca eleni am y tro cyntaf gyda chriw o'r eglwys yn mynychu ynghyd ag aelodau o eglwysi Caerfyrddin, Llanbed ac Aberystwyth. Dafydd Protheroe Morris a siaradodd, ac roedd yn braf iawn cael mwynhau cymdeithas a rhannu newyddion yr eglwysi, a hynny mewn safle mor ddymunol. Cofiwch geisio mynychu y flwyddyn nesaf pan fyddwn ni'n cyfarfod yn Nhrefeca unwaith eto, a Dafydd Job yn pregethu.

Llawenhawn gydag Eglwys Efengylaidd Aberystwyth yn y ffaith bod Steffan Jones wedi derbyn swydd fel gweithiwr dan hyfforddiant am ddwy flynedd, yn dechrau yn haf 2009.

Bydd cyfarfodydd Cylch y Plant Bach yn dod i ben dros y gwyliau

Bydd cyfres cyfarfodydd yr Eglwys Newydd hefyd yn dod i ben dros y gwyliau. Byddant yn ailddechrau ym mis Medi, ar yr ail Sul ym mhob mis, yn hytrach na'r Sul cyntaf.

I'r Dyddiadur

Yn ystod yr wythnos... *(Ag eithrio mis Awst)*

Cyfarfod Gweddi | nos Fawrth | 7.30pm
Paned a Sgwrs | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am
Cylch y Plant Bach | bore Gwener | 10.00 - 11.30am
Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys

Ar ddydd Sul...

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/ Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

<i>Gorffennaf</i>	<i>27</i>	<i>Gwynn Williams</i>
<i>Awst</i>	<i>3</i>	<i>Gwynn Williams</i>
	<i>10</i>	<i>Gwynn Williams</i>
	<i>17</i>	<i>Gwynn Williams</i>
	<i>24</i>	<i>Gwynn Williams</i>
	<i>31</i>	<i>Gwynn Williams</i>
<i>Medi</i>	<i>7</i>	<i>Gwynn Williams</i>
	<i>14</i>	<i>Trystan Hallam</i>
	<i>21</i>	<i>Gwynn Williams</i>
	<i>28</i>	<i>Gwynn Williams</i>
<i>Hydref</i>	<i>5</i>	<i>Noel Gibbard</i>

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni
Cathays, Caerdydd
www.cwmpawd.org